## Atodiad 1 – Data adolygiad

1. Canfu Cyfrifiad 2021 fod 310,751 o ofalwyr yng Nghymru, sef 10% o'r boblogaeth. Er bod hyn yn llai na'r nifer yn 2011, canfu'r Cyfrifiad fod y gofalwyr sy'n weddill yn darparu mwy o oriau o ofal, a bod 107,000 o bobl yng Nghymru yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl bob wythnos. Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o bobl a oedd yn darparu unrhyw ofal di-dâl yng Nghymru oedd Castell-nedd Port Talbot (12.3%), lle roedd y gyfran gydradd uchaf o bobl anabl hefyd. Castell-nedd Port Talbot oedd hefyd â'r gyfran uchaf o bobl a oedd yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos (4.5%) a phobl a oedd yn darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos (2.9%).

2. Yn 2021, yng Nghymru, ystod oedran y ganran uchaf o ofalwyr di-dâl oedd unigolion rhwng 55 a 59 oed ar gyfer menywod a rhwng 55 a 64 oed ar gyfer dynion. Y grwpiau oedran hŷn oedd yn darparu'r nifer mwyaf o oriau o ofal di-dâl.

3. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 9,076 o ofalwyr Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli 2.5% o'r holl ofalwyr yng Nghymru. Hefyd, roedd tua 320 o ofalwyr di-dâl yn perthyn i gymunedau 'Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig'. Roedd hyn yn cynrychioli 0.09% o'r holl ofalwyr di-dâl. Nid oes data sy'n dangos nifer y gofalwyr y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.

4. Mae data awdurdodau lleol yn awgrymu nad yw anghenion llawer o ofalwyr yn cael eu hasesu neu nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. O'r rhai a gaiff eu gwahodd i gael asesiad, bydd ychydig o dan 50% yn gwrthod yr asesiad hwnnw.

5. Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad 'Gofalu am ein dyfodol' yn 2019. Nododd yr adroddiad y byddai'r system gofal cymdeithasol yn methu heb ofalwyr di-dâl. Adroddodd fod nifer yn teimlo yn anobeithiol, nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi digon a'u bod yn cael eu trin heb fawr o barch. Nododd bod y gwaith a wneir gan ofalwyr di-dâl yn cynrychioli arbedion cost enfawr i'r wladwriaeth ac, fel y cyfryw, roedd darparu cymorth priodol yn faes gwariant ataliol sylweddol.

6. Cyhoeddodd Gofalwyr Cymru, sef sefydliad sy'n cynrychioli gofalwyr yng Nghymru, ddogfen 'Track the Act Briefing 5' yn 2020, fel rhan o'i raglen flynyddol sy'n monitro'r ffordd y caiff Deddf 2014 ei gweithredu. Canfu nad oedd 85% o'r 620 o ymatebwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cael asesiad o anghenion gofalwr yn y flwyddyn cyn mis Mawrth 2020;

nad oedd 41% wedi clywed am asesiad o anghenion gofalwr cyn cwblhau eu harolwg ac mai dim ond 10% o ofalwyr oedd wedi cael gwybodaeth neu wasanaethau cynghori gan awdurdodau lleol.

7. Canfu Gofalu (Arolwg Cenedlaethol Cymru), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021, mai pobl rhwng 45 a 74 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod yn ofalwyr. Canfu hefyd fod pobl sy’n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr na pherchen-feddianwyr a bod pobl sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr na’r rhai sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn wahanol i’r data a gasglwyd gan StatsCymru, lle canfuwyd bod cynifer â 50% o ofalwyr yn gwrthod asesiadau, dim ond 8% o ofalwyr yn yr arolwg hwn a wrthododd asesiad, gyda llawer o’r rhai a ymatebodd yn dweud eu bod wedi gwneud hynny am nad oeddent yn gweld gwerth iddo.

8. Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Roedd y strategaeth yn amlinellu’r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella’r ffordd y caiff gofalwyr eu cydnabod a'r cymorth a roddir iddynt. Roedd yn cydnabod bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn hollbwysig a bod angen gwreiddio'r agweddau ataliol ar Ddeddf 2014 yn fwy effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus a symud darparwyr allweddol gwasanaethau, gan gynnwys y trydydd sector, tuag at fodel gwell o gymorth i ofalwyr di-dâl. Dywedodd, pe na bai’n mynd i’r afael â’r materion allweddol hynny, y byddai mwy o ofalwyr di-dâl a’r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cyrraedd argyfwng cyn cael gafael ar gymorth hanfodol. Dywedodd y byddai hyn, yn ei dro, yn cynyddu’r pwysau ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Nododd y strategaeth 4 blaenoriaeth: canfod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl; rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth; cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu; a chefnogi gofalwyr ym myd addysg a’r gweithle. Amlinellodd Llywodraeth Cymru y camau i’w cymryd i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau yn ei Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: cynllun cyflawni 2021.

9. Gwnaeth adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mehefin 2021 nodi rhwystrau a hwyluswyr sy'n gysylltiedig â chael asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth, oedi cyn cael asesiadau, a dim amserlen bendant wedi’i phennu ar gyfer cwblhau’r broses asesu. Nododd hefyd fod rhai grwpiau’n wynebu mwy o risg o beidio â chael gafael ar wybodaeth, er enghraifft pobl sy’n gofalu am blant ag anghenion cymorth ychwanegol, gofalwyr ifanc a gofalwyr pobl sy’n byw gyda dementia, pobl sydd â rhwystrau iaith, nam ar y synhwyrau a mynediad cyfyngedig i’r rhyngrwyd. Hefyd, nododd yr

adroddiad y gall fod gan ofalwyr mewn ardaloedd gwledig broblemau penodol o ran ynysigrwydd cymdeithasol, tlodi, diffyg trafnidiaeth ac anhygyrchedd, sy'n ei gwneud hi'n anos canfod a chefnogi pobl y gall fod angen iddynt gael cymorth i gyflawni eu rolau gofalu.

10. Amlygodd Arolygiaeth Gofal Cymru Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol o Archwiliadau Sicrwydd o Wasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion (adolygwyd rhwng Medi 2020 a Gorffennaf 2021) anghysondebau o ran cynnig asesiadau i ofalwyr fel mater o drefn ac ansawdd yr asesiadau a gwblhawyd. Dywedodd, pan oedd asesiadau'n cael eu cwblhau, bod angen gwella'r prosesau ar gyfer cyfleu canlyniadau i ofalwyr. Canfu AGC dystiolaeth y byddai ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant pellach mewn perthynas ag adnabod cymhwysedd a chael asesiadau ar gyfer gofalwyr. Dywedodd fod yr angen am ddatblygiadau pellach yn cael ei gydnabod gan awdurdodau lleol i wella ymgysylltiad â gofalwyr a chynnig asesiadau yn gyson. Nododd AGC hefyd nad oedd capasiti gwasanaethau yn ddigon i fodloni'r galw, gan amlinellu, ar yr adeg honno, nad oedd anghenion gofal a chymorth pobl, ar adegau, yn cael eu diwallu, gan arwain at bwysau cynyddol ar ofalwyr di-dâl.

11. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, canfu AGC dystiolaeth bod anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried yn briodol a'u cefnogi ochr yn ochr â'r person sy'n derbyn gofal, gyda'u hanghenion yn cael eu hasesu a'u dogfennu ar wahân i rai'r person sy'n derbyn gofal. Yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint, canfu AGC dystiolaeth bod gofalwyr yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Canfu fod gofalwyr yng Ngheredigion yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cymorth a ddarperir gan yr Uned Gofalwyr. Yng Nghyngor Sir y Fflint, canfu AGC dystiolaeth hefyd o anghenion gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn cael eu hystyried a'u cefnogi'n briodol ochr yn ochr â'r person sy'n derbyn gofal.

12. Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr ym mis Tachwedd 2022 fod 46% o ofalwyr di-dâl, mewn arolwg ledled y DU, yn dweud nad oeddent wedi cael asesiad o'u hanghenion fel gofalwyr di-dâl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r rhai nad oeddent wedi cael asesiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 68% nad oeddent wedi cael cynnig un. Dywedodd 71% o'r ymatebwyr a oedd yn byw yng Nghymru ac nad oeddent wedi cael asesiad yn y flwyddyn ddiwethaf eu bod heb gael cynnig un. Dywedodd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr wrthym ei bod yn haws i bobl gael asesiadau ers ei harolwg blaenorol, a gynhaliwyd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Fodd bynnag, dywedodd fod pryder o hyd nad oedd digon o ofalwyr di-dâl yn cael asesiadau o'u hanghenion gan fod awdurdodau lleol dan ormod o bwysau.

13. Canfu Adroddiad ar Arolwg Gofalwyr Hŷn 2022 Age Cymru mai dim ond 54% o ofalwyr oedd yn ymwybodol o'u hawl i Asesiad o Anghenion Gofalwr gan eu hawdurdod lleol, gan ei gwneud yn glir nad yw llawer yn ymwybodol o'r hawl hwn, er y dylai pob gofalwr fod yn ymwybodol o'r hawl hon. Canfu fod diffyg cysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran ymwybyddiaeth gofalwyr o'u hawl i gael asesiad, gan awgrymu bod angen ffocws ledled Cymru i wneud pobl yn ymwybodol o'u hawl.

14. Canfu adroddiad 'Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2022' Gofalwyr Cymru fod gormod o ofalwyr yn wynebu rhwystrau rhag cael asesiad o anghenion gofalwr, gyda llawer sydd wedi'u hasesu'n teimlo nad oedd yr asesiad wedi ystyried eu hanghenion yn ddigonol nac wedi arwain at gymorth ystyrlon. Amlygodd yr adroddiad fod llawer o ofalwyr yn gweld fod eu perthnasoedd yn cael eu heffeithio, eu bod yn aml yn ei chael yn anodd cydbwyso gwaith a gofal a'u bod yn wynebu eu problemau iechyd corfforol a meddyliol eu hunain oherwydd eu rôl ofalu, ac o ganlyniad i'w rôl ofalu. Dywedodd fod gofalwyr yn aml yn defnyddio eu hincwm neu gynilion i dalu am wasanaethau cymorth ac offer gofal a'u bod yn wynebu pwysau digynsail ar eu harian gyda'r argyfwng costau byw.

15. Canfu adroddiad Archwiliad Cymru ym mis Ebrill 2022, Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion, fod anghysondebau yn y ffordd y caiff Taliadau Uniongyrchol eu hyrwyddo a'u rheoli gan awdurdodau lleol, sy'n golygu nad yw gwasanaethau bob amser yn deg.

16. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei adroddiad 'O Ddeddf i Effaith?' adroddiad, yn dilyn ei werthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a oedd yn canolbwyntio ar weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn hytrach na'r ffordd yr oedd gwasanaethau lleol yn cael eu darparu. Nododd, er bod nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn rhwng 2016 a 2019, nodwyd gostyngiad yn 2020/2021.

17. Darparodd yr ymchwiliad Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: disgwyliadau a phrofiadau dystiolaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddeall effaith y ddeddfwriaeth. Llywiodd canfyddiadau'r ymchwil yr adroddiad 'O Ddeddf i Effaith?'. Ymgysylltodd yr astudiaeth â 101 o ofalwyr. Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynghylch yr angen am wybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r darpariaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gyda rhai yn nodi heriau o ran cael mynediad at wybodaeth ac anawsterau o ran dod o hyd i'r wybodaeth a'i deall wrth reoli eu cyfrifoldebau gofalu. Roedd disgwyliad mai

cyfrifoldeb gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr oedd rhannu, cyfeirio, darparu cymorth i gael mynediad at ac egluro gwybodaeth a pheidio â gadael hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr ddod o hyd iddo ar ei ben ei hun. Er bod rhai cyfranogwyr wedi adrodd am brofiadau cadarnhaol o gael asesiad o'u hanghenion, mynegodd eraill eu rhwystredigaeth bod asesiadau o anghenion gofalwyr yn teimlo fel ymarferion 'ticio mewn bwlch'. Dywedodd gofalwyr eraill nad oeddent wedi gallu cael asesiad, er eu bod yn gymwys ac eisiau un. Dywedodd eraill eu bod wedi gweld y broses asesu yn annrymusol ac yn anghefnogol. Dywedodd rhai cyfranogwyr am eu profiad o asesiadau na chafodd eu trosi i unrhyw gymorth ymarferol ar eu cyfer fel gofalwyr a diffyg gofal seibiant. Teimlai rhai bod angen iddynt hunan-addysgu i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cadarnhau a bod eu llais yn cael ei glywed. Nododd yr ymchwil fod gofalwyr yn aml yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar yr hyn a fynegant, ac y byddant yn cael cysur mawr o'r wybodaeth a'r sicrwydd y byddai eu llais yn cael ei glywed ac yn derbyn ymateb, pan fyddant angen estyn allan, fel y rhagwelwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

18. Roedd casgliadau'r adroddiad '[O Ddeddf i Effaith?]' yn cydnabod bod y cyd-destun ar gyfer gosod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi newid dros amser ac mewn ffyrdd digynsail. Roedd y pandemig, yr argyfwng gweithlu a'r argyfwng costau byw, ynghyd â heriau tymor hwy o ran demograffeg a chaledi, wedi creu realiti newydd ac acíwt nad oedd yn bodoli o gwbl yn 2016, neu o leiaf ddim i'r un graddau. Galwodd yr astudiaeth am ymdrech o'r newydd ac i ail-ganolbwyntio ar egwyddorion craidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

19. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ei adolygiad '[Adolygiad cyflym o sut y cafodd hawliau gofalwyr di-dâl eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i COVID-19]' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Comisiynwyd yr adolygiad yn dilyn cyhoeddi [adroddiad] Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, ym mis Mehefin 2022, ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a'r effaith ar lif cleifion drwy ysbytai. Argymhellodd adroddiad y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oedd hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael eu torri oherwydd bod pobl yn gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu nag y gallent fod yn fodlon, neu'n gallu, eu gwneud, oherwydd diffyg gwasanaethau sydd ar gael. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys:

- Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, sy'n atal gofalwyr rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Nid yw llawer o ofalwyr yn cael cynnig asesiadau.
- Roedd diffyg ymwybyddiaeth sylweddol o hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Roedd awdurdodau lleol yn rhagweithiol wrth geisio cyrraedd gofalwyr ond yn cydnabod bod mwy i'w wneud.
- Nad cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig oedd adnabod gofalwyr – dylai Meddygon Teulu a gwasanaethau iechyd eraill chwarae rhan fwy fel rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol fwy integredig.
- Roedd adborth gan ofalwyr yn dangos diffyg o ran diwallu anghenion gofalwyr. Nodwyd a gofal seibiant fel yr angen mwyaf arwyddocaol nas diwallwyd.
- Ni roir digon o bwys ar y cyfraniad y mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud i'r system gofal cymdeithasol ac nid oedd yn cael ei gydnabod yn ddigon da am ei rôl o ran atal neu ohirio'r angen am wasanaethau statudol.

20. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Gofalwyr Cymru ei adroddiad Cyflwr Gofalu 2023 ar effaith gofalu ar iechyd yng Nghymru a oedd yn crynhoi ymatebion gan 1,182 o bobl sy'n darparu gofal ac a gwblhaodd arolwg ar-lein rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023. Adroddodd fod llawer o ofalwyr yn teimlo dan straen, yn isel eu hysbryd ac yn unig. Ymhellach, canfu nad oedd cyfran sylweddol o ofalwyr yn ceisio cymorth gyda chyflyrau iechyd oherwydd gofynion eu rôl ofalu ac nid oedd llawer yn gallu cymryd seibiant o ofalu i wneud y pethau a allai wella eu llesiant. Dywedodd Cynhalwyr Cymru yr oedd modd atal rhywfaint o'r difrod a achoswyd i iechyd a llesiant gofalwyr o ganlyniad i'w rôl ofalu gydag ymyriadau, gwybodaeth, cyngor a'r cymorth cywir. Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru, y GIG ac awdurdodau lleol. Ei argymhellion i awdurdodau lleol oedd cynyddu adnoddau ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chyngor fel bod mwy o ofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac i weithio ag elusennau cenedlaethol a lleol i greu mwy o gyfleoedd iechyd a llesiant i ofalwyr yn y gymuned.

21. Cyhoeddodd Cynhalwyr Cymru hefyd ei adroddiad Cyflwr Gofalu 2023 ar effaith gofalu ar gyllid yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023. Canfu'r adroddiad hwn fod gofalwyr yn cael trafferth gyda'u harian a bod gofalwyr a oedd eisoes yn cael trafferth â chostau byw uchel mewn tlodi pellach oherwydd bod eu gallu i ennill wedi'i gyfyngu gan Lwfans Gofalwr. Dangosodd yr adroddiad fod gofalwyr yn poeni am effaith eu rôl ofalu ar eu harian, er

enghraifft, am danwydd i fynd i apwyntiadau ysbyty, am wres ac am ofynion dietegol penodol.  Dangosodd hefyd fod llawer wedi cwtogi ar weld teulu a ffrindiau, sef llinell fywyd bwysig i ofalwyr sydd yn aml yn darparu cymorth a seibiant o oriau hir ac unig weithiau o ofalu.